Y Comisiwn Etholiadol

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – PF

# Gwiriadau caniatâd i bleidiau gwleidyddol

Mae'r ddogfen hon i swyddogion pleidiau ym Mhrydain Fawr, sydd â dealltwriaeth dda am roddion a benthyciadau, sy'n dymuno gwybod mwy am sut i wirio caniatâd.

Cynnwys:


Pwy a ganiateir

Sut i wneud gwiriadau

Yr hyn y mae angen i chi ei gofnodi

## Termau ac ymadroddion yr ydym yn eu defnyddio

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoleiddiol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau yr ydym yn ystyried eu bod yn isafswm arfer da, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes raid i chi ddilyn y canllaw hwn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

## Ein hymagwedd ar orfodi

Os na fyddwch yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol gallech chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. Gallwch gael mwy o wybodaeth am ymagwedd y Comisiwn at orfodi yn www.electoralcommission.org.uk/party-finance/enforcement.

# Gwiriadau caniatâd i bleidiau gwleidyddol

## I bwy mae'r ddogfen hon:

Swyddogion pleidiau ym Mhrydain Fawr sy'n dymuno gwybod mwy am sut i wirio a ganiateir rhoddwr neu fenthyciwr.

## Mae'n cwmpasu:

- Pwy sy'n rhoddwr neu fenthyciwr a ganiateir
- Sut i gynnal gwiriadau ar ganiatâd
- Yr hyn y mae angen i chi ei gofnodi

## Dogfennau cysylltiedig:

- Trosolwg o roddion i bleidiau gwleidyddol
- Trosolwg o fenthyciadau i bleidiau gwleidyddol
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – Rheoli rhoddion i bleidiau gwleidyddol
- Sefyllfaoedd a gweithdrefnau – Adrodd am roddion a benthyciadau: Pleidiau ag unedau cyfrifeg

## Papurau arbenigol

- Rhoddion gan ymddiriedolaethau

2

# Crynodeb

Mae rhoddion i bleidiau gwleidyddol wedi'u rheoleiddio gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA).

Gellir eu derbyn gan ffynonellau penodol yn unig, sef rhai wedi'u lleoli yn y DU yn bennaf.

Mae'r canllaw hwn yn egluro sut i wirio os gallwch dderbyn rhodd neu fenthyciad gan ffynhonnell arbennig, ac yn dweud wrthych pa wybodaeth y mae angen i chi ei chofnodi.

Bydd yr wybodaeth y byddwch yn ei chofnodi yn eich helpu i gwblhau eich ffurflenni chwarterol i ni.

# Gwirio caniatâd

Cyn i blaid dderbyn unrhyw rodd neu fenthyciad o fwy na £500, mae'n rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i:

- sicrhau ei bod yn adnabod y ffynhonnell wirioneddol
- gwirio y caniateir y ffynhonnell

## Pwy sy'n gyfrifol am wirio caniatâd?

Rhaid i bleidiau benodi a chofrestru trysorydd gyda ni. Mae'r trysorydd cofrestredig yn gyfreithiol gyfrifol am sicrhau bod y blaid yn cydymffurfio â'r rheolau.

Mae hyn yn cynnwys cynnal systemau addas o fewn y blaid i sicrhau yr ymdrinnir â rhoddion a benthyciadau yn gywir.

Rhaid i swyddogion eraill pleidiau roi gwybodaeth berthnasol i'r trysorydd os oes disgwyl rhesymol iddynt wneud hynny.

Am fwy o wybodaeth, gweler y dogfennau hyn:

- Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid
- Trosolwg o fenthyciadau i bleidiau gwleidyddol
- Trosolwg o roddion i bleidiau gwleidyddol
- Rheoli rhoddion i bleidiau gwleidyddol

## Faint o amser sydd gennyf i wirio caniatâd?

Cyn gynted ag y byddwch yn derbyn rhodd, rhaid i chi wneud yn siwr eich bod yn gwybod pwy yw'r rhoddwr, a dechrau gwirio a ganiateir y rhoddwr hwnnw. Mae gennych 30 diwrnod i benderfynu p'un ai i dderbyn neu wrthod rhodd.

Rhaid i chi gwblhau gwiriadau caniatâd ar fenthycwyr cyn trefnu benthyciad.

Hyd yn oed os ydych wedi gwirio mewn perthynas â rhodd neu fenthyciad cynharach o'r un ffynhonnell, rhaid i chi wneud gwiriad newydd ym mhob achos newydd i sicrhau nad yw unrhyw beth wedi newid.

Dylech gadw cofnod o'ch holl wiriadau caniatâd i ddangos eich bod wedi dilyn y rheolau.

Pwysig

Os nad yw'n gwbl glir pwy y dylech eu trin fel rhoddwyr, dylech wirio'r ffeithiau i fod yn siwr

# 4

## Beth yw ffynhonnell a ganiateir?

Ffynhonnell a ganiateir yw:

- Unigolyn a gofrestrwyd ar gofrestr etholiadol y DU, yn cynnwys etholwyr tramor a'r rheiny sy'n gadael cymynroddion.
- Cwmni a gofrestrwyd yn y DU a ymgorfforwyd o fewn yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac sy'n gweithredu busnes yn y DU.
- Plaid wleidyddol a gofrestrwyd ym Mhrydain Fawr.
- Undeb llafur a gofrestrwyd yn y DU.
- Cymdeithas adeiladu a gofrestrwyd yn y DU.
- Partneriaeth rhwymedigaeth gyfyngedig a gofrestrwyd yn y DU (LLP) sy'n gweithredu busnes yn y DU.
- Cymdeithas gyfeillgar a gofrestrwyd yn y DU.
- Cymdeithas anghorfforedig wedi'i lleoli yn y DU sy'n gweithredu busnes neu weithgareddau eraill yn y DU.

Gallwch dderbyn rhoddion hefyd, ond nid benthyciadau, gan fathau penodol o ymddiriedolaethau, cronfeydd cyhoeddus penodol ac unrhyw un sy'n talu am gostau rhesymol taith dramor.

Nid oes hawl gan ymddiriedolaethau wneud rhoddion gwleidyddol o dan gyfraith elusennau, hyd yn oed os ydynt yn dod o fewn un o'r categorïau rhoddwyr a ganiateir.

Os ydych yn gwybod bod rhoddwr yn elusen, dylech sicrhau eu bod yn cael cyngor gan y Comisiwn Elusennau cyn rhoi rhodd.

Am fwy o wybodaeth, gweler y ddogfen hon:

- Papur arbenigol: Rhoddion gan ymddiredolaethau

# Sut i wirio a ganiateir unigolyn

## Beth sy'n rhoi caniatâd i unigolyn?

Rhaid i unigolion fod ar gofrestr etholiadol y DU ar adeg y rhodd neu'r benthyciad. Mae hyn yn cynnwys etholwyr tramor.

Os gadewir cymynrodd i chi, ac roedd yr unigolyn ar y gofrestr etholiadol ar unrhyw adeg pum mlynedd cyn ei farwolaeth, cewch dderbyn y rhodd.

## Sut ydych yn gwirio caniatâd?

Gallwch ddefnyddio'r gofrestr etholiadol i wirio a ganiateir unigolyn. Mae hawl i bleidiau gael copi am ddim o'r gofrestr etholiadol lawn.

Fel arfer cyhoeddir fersiwn newydd o'r gofrestr etholiadol ar 1 Rhagfyr bob blwyddyn, a chaiff ei diweddaru'n rheolaidd.

Dylech gysylltu â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn y cyngor perthnasol i gael eich copi, gan egluro eich bod yn gofyn amdano fel plaid wleidyddol gofrestredig. Dylech ofyn iddynt hefyd anfon yr holl ddiweddariadau atoch.

Pwysig

Rhaid i chi wirio'r gofrestr a'r diweddariadau yn ofalus i sicrhau bod y person ar y gofrestr ar y dyddiad y byddwch yn trefnu'r benthyciad, neu'r dyddiad y derbyniasoch y rhodd.

Mewn amgylchiadau arbennig, mae gan bobl gofrestriad dienw. Os yw rhoddwr neu fenthyciwr wedi'i gofrestru'n ddienw, cysylltwch â ni am gyngor ar sut i gadarnhau caniatâd.

Rhaid i chi ddefnyddio'r gofrestr i wirio a ganiateir rhoddwr neu fenthyciwr at ddibenion etholiadol yn unig. Ni ddylech ei throsglwyddo i unrhyw un arall.

6

## Beth y mae angen i chi ei gofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- Enw llawn y rhoddwr neu fenthyciwr.
- Y cyfeiriad fel y mae'n ymddangos ar y gofrestr etholiadol, neu os yw'r person yn etholwr tramor, eu cyfeiriad cartref

Gallech ei gael yn ddefnyddiol nodi rhif etholwr y person, fel cofnod o'ch gwiriad.

# Sut i wirio a yw cwmni'n un a ganiateir

## Beth sy'n gwneud cwmni yn rhoddwr a ganiateir?

Caniateir cwmni os yw:

- wedi'i gofrestru â Thŷ'r Cwmnïau
- yn ymgorfforedig yn Aelod Wladwriaeth yr UE, ac
- yn gweithredu busnes yn y DU

Rhaid i chi fod yn siwr bod y cwmni yn cwrdd â phob un o'r tri maen prawf.

## Sut ydw i'n gwirio cofrestriad y cwmni ac ymgorfforiad yn yr UE?

Dylech wirio'r gofrestr yn Nhŷ'r Cwmnïau, gan ddefnyddio'r gwasanaeth am ddim sef Webcheck yn www.companieshouse.gov.uk.

Dylech edrych ar y cofnod llawn ar y gofrestr i'r cwmni.

I wirio bod y cwmni yn un a ganiateir, mae'n rhaid i chi edrych ar ei rif cofrestredig. Bydd gan rai cwmnïau rif yn unig. Bydd gan gwmnïau eraill lythyren fel rhagddodiad i'r rhif.

Mae'r tabl isod yn dangos i chi os yw cwmni â rhagddodiad penodol yn gymwys, ar yr amod ei fod yn gweithredu busnes yn y DU.

Defnyddiwch wasanaeth am ddim Tŷ'r Cwmnïau sef Webcheck yn: www.companieshouse.gov.uk

| Llythyren rhagddodi | A yw'n cael ei ganiatáu? |
|---|---|
| Dim | Ydy |
| NI, SC | Ydy |
| FC, NF, SF | Ydy, os yw'r 'wlad wreiddiol' yn y cofnod ar y gofrestr yn Aelod Wladwriaeth yr UE |
| OC3, SO3 | Ydy, fel partneriaeth rhwymedigaeth gyfyngedig – gweler yr adran ar wahân isod |
| IP, SP, NP | Efallai – gweler cymdeithasau diwydiannol a darbodus yn yr adran 'Mathau eraill o roddwr' ar dudalen 10 |
| Unrhyw ragddodiad arall | Nac ydy |

## Sut ydych yn gwirio a yw'r cwmni yn gweithredu busnes yn y DU?

Rhaid i chi fod yn fodlon bod y cwmni yn gweithredu busnes yn y DU. Gall y busnes fod yn un nad er elw.

Hyd yn oed os oes gennych wybodaeth bersonol uniongyrchol am y cwmni, dylech wirio cofrestr Tŷ'r Cwmnïau i weld os:

- Yw'r cwmni yn fethdalwr, yn segur, neu ar fin cael ei wahardd.
- Mae cyfrifon a ffurflen flynyddol y cwmni yn hwyr.

Gallai cwmni fod yn gweithredu busnes o hyd os yw'n fethdalwr, yn segur neu'n hwyr yn cyflwyno dogfennau, ond dylech wneud gwiriadau ychwanegol i fodloni'ch hun mai dyna'r sefyllfa.

I unrhyw gwmni, dylech ystyried edrych ar:

- Wefan y cwmni.
- Cyfeirlyfrau masnach a ffôn perthnasol neu wefannau cyfrifol.
- Y cyfrifon diweddaraf a gyflwynwyd i Dŷ'r Cwmnïau.

Os ydych yn dal i fod yn ansicr a yw'r cwmni yn gweithredu busnes yn y DU, dylech ofyn am gadarnhad ysgrifenedig o'i weithgareddau busnes gan gyfarwyddwyr y cwmni.

Os ydych yn dal i fod yn ansicr a yw cwmni'n un a ganiateir, ffoniwch neu ebostiwch ni am gyngor.

# Beth y mae angen i chi ei gofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- Yr enw fel y'i dangosir ar y gofrestr
- Cyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni
- Rhif y cwmni cofrestredig

# Partneriaethau rhwymedigaeth gyfyngedig

## Beth sy'n gwneud partneriaeth rhwymedigaeth gyfyngedig yn rhoddwr a ganiateir?

Mae partneriaeth rhwymedigaeth gyfyngedig (LLP) yn rhoddwr a ganiateir os yw:

- Wedi'i chofrestru fel LLP yn Nhŷ'r Cwmnïau.
- Yn gweithredu busnes yn y DU.

## Sut ydych yn gwirio caniatâd?

Dylech wirio'r gofrestr yn Nhŷ'r Cwmnïau, gan ddefnyddio'r gwasanaeth am ddim sef Webcheck yn www.companieshouse.gov.uk.

Mae angen i chi edrych ar rif cofrestredig yr LLP. Dim ond rhifau sy'n dechrau gyda OC3 neu SO3 sy'n LLPau a ganiateir.

Gallwch weld mwy o wybodaeth yn yr adran flaenorol 'Sut ydych yn gwirio a yw'r cwmni yn gweithredu busnes yn y DU?' ar y dudalen flaenorol.

Defnyddiwch wasanaeth am ddim Tŷ'r Cwmnïau sef Webcheck yn: www.companieshouse.gov.uk

## Beth y mae angen i chi ei gofnodi?

Rhaid i chi gofnodi:

- Yr enw fel y'i dangosir ar y gofrestr
- Cyfeiriad swyddfa gofrestredig yr LLP

# Cymdeithasau anghorfforedig

## Beth sy'n gwneud cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir?

Mae cymdeithas anghorfforedig yn rhoddwr a ganiateir os:

- Mae ganddo fwy nag un aelod.
- Mae'r brif swyddfa yn y DU.
- Mae'n gweithredu busnes neu weithgareddau eraill yn y DU.

## Sut ydych yn gwirio caniatâd?

Nid oes cofrestr o gymdeithasau anghorfforedig.
Mae caniatâd yn fater o'r ffeithiau ym mhob achos.

Yn gyffredinol, dylai fod gan gymdeithas anghorfforedig:

- Aelodaeth y gellir ei hadnabod, a
- Rheolau neu gyfansoddiad, a
- Bodolaeth ar wahân i'w haelodau.

Er enghraifft, weithiau mae clybiau aelodau yn gymdeithasau anghorfforedig.

Os nad ydych yn siwr os yw cymdeithas yn cwrdd â'r meini prawf, dylech ystyried a yw'r rhodd mewn gwirionedd gan unigolion oddi mewn iddi (yn hytrach na'r gymdeithas) neu os yw rhywun o fewn y gymdeithas yn gweithredu fel asiant i eraill.

Os ydych yn credu mai dyma'r sefyllfa, rhaid i chi wirio caniatâd pob unigolyn sydd wedi cyfrannu mwy na £500 a'u trin hwy fel y rhoddwyr.

Gallwch weld mwy o wybodaeth ar weithredu busnes yn yr adran flaenorol 'Sut ydych yn gwirio a yw'r cwmni yn gweithredu busnes yn y DU?' ar dudalen 7.

Os hoffech gael mwy o arweiniad ar ganiatâd a chymdeithasau anghorfforedig, ffoniwch neu ebostiwch ni.

Os yw cymdeithas anghorfforedig yn gwneud rhoddion gwleidyddol sy'n dod yn gyfanswm o fwy na £25,000 mewn blwyddyn galendr, dylech ddwyn i'w sylw bod yn rhaid iddynt adrodd hyn i ni.

Gweler ein gwefan neu ffoniwch am fwy o wybodaeth.

## Beth y mae angen i chi ei gofnodi?

Bydd angen i chi gofnodi:

- Enw'r gymdeithas anghorfforedig.
- Cyfeiriad prif swyddfa'r cwmni.

# 10

## Mathau eraill o roddwr

Mae'r tabl isod yn dangos sut yr ydych yn gwirio caniatâd ar gyfer mathau eraill o roddwr neu fenthyciwr.

| Math o roddwr | Gofyniad | Ble i wirio |
|---|---|---|
| Undeb llafur | Wedi'i restru fel undeb llafur gan y Swyddog Ardystio | Y Swyddog Ardystio www.certoffice.org |
| Cymdeithas adeiladu | Cymdeithas adeiladu o fewn ystyr Deddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 | Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol http://mutuals.fsa.gov.uk |
| Cymdeithas gyfeillgar/ ddiwydiannol/ddarbodus | Cofrestrwyd o dan Ddeddf Cymdeithasau Cyfeillgar 1974 neu Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 | Yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol http://mutuals.fsa.gov.uk |

### Beth y mae angen ei gofnodi?

Bydd angen i chi gofnodi:

- Enw'r rhoddwr.
- Y cyfeiriad, fel y'i dangosir ar y gofrestr berthnasol.

# Sut y gallwn ni helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Os yw'n haws, gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod.  Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 0333 103 1928
  pef@electoralcommission.org.uk

- Yr Alban: 0333 103 1928
  infoscotland@electoralcommission.org.uk

- Cymru: 0333 103 1929
  gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
  infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i www.comisiwnethaliadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: pef@electoralcommission.org.uk